

CCS: Denu a chadw'r gweithlu gorau bosibl			
Cam gweithredu	Adran / uned fusnes sy'n gyfrifol	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
Denu a chadw talent drwy annog ymgeiswyr a gweithwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gynnig am swyddi a chyfleoedd camu ymlaen â'u gyrfaoedd o fewn ein sefydliad.	TRhAau/Rheoli Pobl (Cymorth AD, DaD)	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Adolygu ein hyfforddiant recriwtio yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod rheolwyr recriwtio a staff cymorth yn y broses recriwtio wedi derbyn y diweddaraf ynglŷn â'n gweithdrefnau corfforaethol a'u bod yn defnyddio tegwch a chydaddoldeb ym mhob rhan o'r broses.	Rheoli Pobl (DaD)	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Datblygu datganiad ymddygiad trosfwaol sy'n gydnaws â'n gwerthoedd craidd a ddatblygwyd o'r newydd er mwyn sicrhau bod cyflogwyr a rheolwyr yn gwerthfawrogi ac yn deall y Ddyletswydd Gydraddoldeb a sut y mae hi'n ymwneud â'u swyddogaeth yn ein sefydliad.	GLISP/ Rheoli Pobl (Ymgynghoriaeth)	Ebrill 2016	Mawrth 2017
Datblygu modiwl Croeso Corfforaethol ar-lein ac adolygu gweithdrefnau ymsefydlu adrannol er mwyn sicrhau bod gweithwyr newydd yn cael eu croesawu ac yn deall eu cyfrifoldebau cydraddoldeb ac amrywiaeth, eu gwerthoedd craidd a'u safonau ymddygiad.	Rheoli Pobl (DaD)	Ionawr 2016	Hydref 2016
Datblygu polisiau cyflogaeth a hyrwyddo mentrau sy'n cefnogi ein gweithwyr drwy gyfnodau o newid sefydliadol, her sy'n gysylltiedig â'r gwaith neu her bersonol, e.e. rheoli Straen, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, cam-drin domestig a chefnogaeth gyda thrais rhywiol.	Rheoli Pobl (AD, DaD a IG)	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Datblygu ein strategaeth i gyfathrebu ac ymgysylltu â gweithwyr er mwyn galluogi cyfathrebu dwy ffordd gyson a ffyrdd effeithiol i lais y staff gael ei glywed.	GLISP/Rheoli Pobl (Ymgynghoriaeth)	Gorffennaf 2016	Mawrth 2017
Darparu'r fframwaith er mwyn i reolwyr ddatblygu amgylchedd gwaith cadarnhaol i gefnogi presenoldeb rheolaidd, cynghori rheolwyr a monitro cysondeb, e.e. addasiadau rhesymol ar gyfer anabledd, gweithio hyblyg ar gyfer cyfrifoldebau gofalu, amser i ffwrdd ar gyfer defodau crefyddol.	TRhAau/Rheoli Pobl (AD, DaD a IG)	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Datblygu rhaglen integredig o ddatblygu'r laith Gymraeg ar gyfer ein gweithwyr,	Rheoleiddio a Pholisi/Rheoli Pobl (DaD)	Ebrill 2016	Mawrth 2020

Defnyddio'r Prosiect Parod i Waith (prentisiaethau, graddedigion, profiad gwaith, lleoliadau gwaith, gwirfoddoli) er mwyn denu a chadw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, e.e. Pobl ifanc, pobl gydag anableddau a monitro'r canlyniadau.	Rheoli Pobl (DaD)	Ebrill 2015	Ebrill 2017 [estynnir os ceir cyllid ychwanegol]
Byddwn ni'n parhau i annog a monitro bod gan bob gweithiwr y cyfle i gwrdd â'u rheolwr ar gyfer trafodaeth <i>Helpu Pobl i Berfformio (HPB)</i> ynglŷn ag arfarnu eu perfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn.	GLISP/Rheoleiddio a Pholisi (Perfformiad a gwybodaeth)	Ebrill 2016	Mawrth 2020

DRAFT

CCS: Byddwn ni'n gweithio i wella data monitro cyflogaeth sydd gan yr awdurdod lleol ac yn sicrhau bod gwahaniaethau cyflog yn cael eu nodi a'u gweithredu			
Cam gweithredu	Adran / uned fusnes sy'n gyfrifol	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
Cynnal ein hymgyrch sydd wedi'i thargedu i annog gweithwyr ddatgan gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn wirfoddol er mwyn lleihau bylchau mewn data a deall cyfansoddiad ein gweithlu yn well	GLISP/Rheoli Pobl (AD, Cymorth AD)	Medi 2016	Mawrth 2020
Cefnogi'r ddarpariaeth o ddata am y gweithlu i ysgolion i alluogi pob un ohonyn nhw i gyflawni ei chyfrifoldeb statudol ar gyfer adrodd ynglŷn â chydraddoldeb strategol yn flynyddol	Addysg a Phlant/Rheoli Pobl (Cymorth AD)	Medi 2016	Parhaus yn amodol ar ddarpariaethau CLG a derbyn gan ysgolion
Adolygu ein proses ymgeisio a chymeradwyo ar gyfer dysgu a datblygu a monitro er mwyn sicrhau mynediad cyson a theg	TRhAau/Rheoli Pobl (DaD)	Medi 2017	Mawrth 2017 yn amodol ar brofi ac adolygu cynllun peilot
Cynnal archwiliad o Gyflog Cyfartal yn flynyddol i nodi a deall ein gwir fylchau cyflog a/neu anghysondebau tâl a datblygu camau gweithredu i wella	GLISP/Rheoli Pobl (AD)	Mehffin 2016	Mawrth 2020
Defnyddio'r dull Dadansoddi Cyflogaeth a Chyflog Dynion a Merched (GEPA) at wybodaeth am ein gweithlu a data cyflogau i nodi unrhyw anghyfartaledd cyflogaeth posibl a datblygu camau gweithredu ar gyfer wella	GLISP/Rheoli Pobl (AD, Cymorth AD)	Mehffin 2016	Mawrth 2020
Defnyddio ein gwybodaeth ynglŷn â'r gweithlu er mwyn darparu gwybodaeth olyniaeth a chynllunio'r gweithlu a datblygu amcanion busnes sy'n cefnogi gwella cydraddoldeb	TRhAau/GLISP	Mehffin 2016	Mawrth 2020
Parhau i roi cyngor a chefnogaeth i unedau busnes yn ystod aildrefnu'r gwasanaethau er mwyn sicrhau bod yr effaith ar y gweithlu yn cael ei hasesu'n briodol	Rheoli Pobl (AD)	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Defnyddio adborth gan achrediadau allanol fel Buddsoddwyr mewn Pobl i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â blaenoriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y dyfodol	GLISP/Rheoli Pobl (AD, IG a DaD)	Mehffin 2016	Mawrth 2020
Cynnal archwiliad o Sgiliau Iaith ein gweithwyr	TRhAau/Rheoli Pobl (Cymorth AD, DaD)	Ebrill 2016	Mehffin 2016
Gwerthuso ac adolygu ein hamcanion cydraddoldeb er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwella parhaus ac adrodd yn flynyddol	GLISP	Mehffin 2016	Ionawr 2017/18/19/20

DRAFT